


1. CYFLWYNIAD

Cafodd y term Celt (yn wreiddiol *Keltoi* yn y lluosog) ei ddefnyddio yn wreiddiol gan y Groegiaid wrth gyfeirio at y boblogaeth frodorol oedd i mewn yn y tir o'u trefedigaeth hwy ym Massalia (Marseille yn ne Ffrainc), trefedigaeth a sefydlwyd tua 600CC. Er hynny defnyddiwyd y term yn ddiweddarach ganddynt i gyfeirio at breswylwyr gogledd Ffrainc yn ogystal ag ar y ffurf Celtiberiaid (*Celtiberii* yn y lluosog) i gyfeirio at boblogaeth gymysg y Celtiaid a'r Iberiaid yn Sbaen, nid oedd y term Celtiaid yn fonopoli ar y derminoleg wrth gyfeirio ar y bobl frodorol hyn. Rhoddodd y Rhufeiniaid y term Gالياid ar y barbariaid hynny a ysbeiliodd Rhufain yn 390CC tra cafodd y rhai a oresgynnodd Groeg ac Asia Leiaf yn 280CC yr enw Galatiaid (yn wreiddiol *Galatai* yn y lluosog) gan y Groegiaid. Awgrymwyd amryw o darddiadau i esbonio'r grwpiau *Celtae*, *Galli*, *Galati* – i roi iddynt eu ffurfiau Lladin – a chafwyd sawl ymgais i geisio dangos eu bod yn fersiynau o'r un gair. Nid oes consensws, ond yr hyn sy'n amlwg i genedlaethau o ieithyddion sydd wedi astudio iaith mewn enwau personol ac enwau lleoedd, yn ogystal â'r ychydig o ddatganiadau hanesyddol ynghylch iaith y bobl a enwir yn Geltiaid, Gالياid, Galatiaid, yw bod perthynas rhwng eu hiaith a'u bod yn ffurfio cangen ddigamsyniol o'r Indo-Ewropeg (gweler Adran 2). Mae'r dadleuon nad oedd yr Hen Frythoniaid (*Britanni* yn lluosog yn Lladin) yn Geltiaid gan na ddisgrifiwyd hwy felly gan ffynonellau o'r henfyd (James 1999) yn methu â sylwi ar y ffaith bwysicach bod iaith yr hen Frythoniaid bron â bod yr un fath ag un y Gالياid yn Ffrainc gerllaw.

Erbyn i'r Rhufeiniaid o dan Iŵl Cesar oresgyn y Gالياid yn y 50au CC, roedd yn well ganddynt y term *Galli* ar gyfer y bobl hynny, a'r tarddair Gallia oedd yr enw a ddefnyddiant wrth sôn am yr hyn sydd erbyn heddiw yn Ffrainc. Diflannodd y term Celtiaid o ffynonellau Rhufeinig bron â bod, oni bai – megis llawer o eiriau Groeg eraill yn Lladin – fel gair dysg hynafol. Roedd eu gorchfygu a'u hymgorffori yn yr Ymerodraeth Rufeinig wedi golygu bod y rhan fwyaf o siaradwyr yr ieithoedd hyn wedi troi i'r Lladin. Felly pan adawodd yr Ymerodraeth yn y 5G OC, roedd yr unig gorff sylweddol o siaradwyr ieithoedd oedd yn dal i fodoli a berthynai i'r Hen Geltiaid, Gالياid a'r Galatiaid i'w canfod ar gyrion allanol yr Ymerodraeth Rufeinig ar Ynysoedd Prydain (yn wir ni oresgynnwyd Iwerddon a gogledd Alban erioed gan y Rhufeiniaid). Goroesodd dwy gangen ieithyddol amlwg, sef y Frythoneg a'r Oideleg, i'r Oesoedd Canol ac mewn amser esblygodd y rhain i roi'r ieithoedd Llydaweg, Cernyweg a'r Gymraeg (Brythoneg) a'r ieithoedd Gwyddeleg, Manaweg a Gaeleg yr Alban (Goideleg). Am sawl canrif, ni roddwyd sylw i'r term Celt ac roedd y defnydd ohono wedi darfu i raddau, ac ni wyddid am y cysylltiad â'r bobl hynny a siaradai'r ieithoedd a ddeilliai o'r Celtiaid. Yn wir nid ymddengys fod ffynonellau canoloesol hyd yn oed yn ymwybodol o'r berthynas rhwng dwy gangen gyfoes y Frythoneg a'r Oideleg.

Ffigwr 1: Dosbarthiad y Celtiaid, Hen a Modern



[map o Wikipedia]

Daeth y term Celt i'r fei eto pan ddechreuodd ysgolheigion y Dadeni sylwi ar debygrwydd rhwng iaith lafar Cymru a Llydaw ar y naill law ac ieithoedd Iwerddon a'r Alban ar y llall. Yr hanesydd o'r Alban George Buchanan, yn ei *Rerum Scoticarum Historia* yn 1582, oedd y cyntaf i sylwi ar gysylltiad rhwng Gaeliaid yr Alban ac Iwerddon a'r hen Gالياid (y perthynai'r hen Frythoniaid iddynt). Sylwodd yr offeiriaid o Lydaw Paul-Yves Pezron yn ei *L'Antiquité de la Nation Celtique* yn 1703 ar y cyswllt rhwng yr ieithoedd Llydaweg a'r Gymraeg a'r hen Oideleg ac ef oedd y cyntaf i ddisgrifio'r ieithoedd hyn yn rhai Celtaidd. Cysurwyd yr ysgolhaig Edward Lhuyd gan safbwynt Pezron, ac yn ei *Archaeologia Britannica* anferthol yn 1707, profodd Lhuyd y tu hwnt i amheuaeth y berthynas rhwng yr ieithoedd modern Celtaidd a chysylltodd ef hwy â hen ieithoedd yr Oideleg a'r Frythoneg.

Bu segurdod yn natblygiad ieithyddiaeth gymharol Geltaidd ar ôl gwaith arloesol Lhuyd yn dangos y cysylltiadau rhwng yr ieithoedd hyn ac ni wnaed unrhyw gynnydd hyd ddechrau'r 19G gyda gweithiau James Cowles Prichard 1831 *Eastern Origin of the Celtic Nations*, Adolphe Pictet 1834 *De l'Affinité des Langues Celtiques avec le Sanscrit*, a phrofodd Franz Bopp 1837 *Die celtischen Sprachen* y tu hwnt i amheuaeth bod y teulu Celteg yn Indo-Ewropeaidd. Ond *Grammatica Celtica* Johann Caspar Zeuss yn 1853 a sefydlodd astudiaeth hanesyddol fodern o'r ieithoedd Celtaidd, a throsglwyddwyd gwaith ysgolheigion cyfandirol, megis yr Almaenwyr

Kuno Meyer, Rudolf Thurneysen a'r Llydawr Joseph Loth, i bron bob ysgolhaig Gwyddelig a Chymreig yn nechrau'r 20G.

Erbyn diwedd y 19G roedd datblygiad hanesyddol yr ieithoedd neo-Geltaidd modern yn adnabyddus ac nid yw wedi newid yn fawr iawn ers hynny. Er hynny, mae parhau i ganfod hen arysgrifau yn golygu bod y farn ynghylch yr hen Gelteg wedi esblygu. Ar un adeg, dim ond y P-Celteg Oideleg a gydnabuwyd, ond ers hynny darganfuwyd amrywiaethau tafodieithol, yn fwyaf amlwg yn achos Celtibereg o Sbaen y sylweddolwyd yn y diwedd ei bod yn Q-Celteg fel yr Wyddeleg (gweler Adran 2).

Llyfryddiaeth Ddethol

(* gweithiau arweiniol a argymhellir)

Darganfod a Diffinio'r Celtiaid

- CHAPMAN, Malcolm. 1978. *The Gaelic Vision in Scottish Culture*. (London: Croom Helm).
- JAMES, Simon T. 1999. *The Atlantic Celts: Ancient People or Modern Invention?*. (London: British Museum).
- KENT, Alan M. 2002. 'Celtic nirvanas: constructions of Celtic in contemporary British youth culture'. Yn David C. Harvey & Rhys Jones & Neil McNroy & Christine Milligan (goln). *Celtic Geographies: Old Culture, New Times*. (London: Routledge), 208–26.
- MEGAW, Ruth & MEGAW, Vincent. 1997. 'Do the Ancient Celts still live? An essay on identity and contextuality'. Yn *Studia Celtica* 31.107–23.
- *MORSE, Michael A. 2005. *How the Celts Came to Britain: Druids, Ancient Skulls and the Birth of Archaeology*. (Tempus: Stroud).
- SIMS-WILLIAMS, Patrick. 1998. 'Celtomania and celtoscepticism'. Yn *Cambrian Medieval Celtic Studies* 36, 1–36.